OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1605 (Cy. 203) (C. 93)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2015

## NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, o ran Cymru, adran 89 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ("y Ddeddf") sy'n diwygio adrannau 11 a 12 o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) drwy ehangu'r rhestr o ddarparwyr addysg uwch y mae'n ofynnol iddynt ymuno â'r cynllun ymdrin â chwynion addysg uwch.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r sefydliadau newydd hynny sy'n cael eu dwyn o dan y cynllun cwynion addysg uwch, sef mai dim ond am weithredoedd neu anweithiau sy'n digwydd ar 1 Medi 2015 neu ar ôl hynny, neu pan fo gweithred neu anwaith yn digwydd cyn 1 Medi 2015 ac yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw, y mae modd cwyno mewn perthynas â'r sefydliadau newydd hynny.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 77 (yn rhannol) | 27 Mai 2015 | O.S. 2015/1333 |
| Adran 81 (yn rhannol) | 3 Awst 2015 | O.S. 2015/1584 |

(**1**) 2004 p. 8.

| | | |
|---|---|---|
| Adran 82 | 27 Mai 2015 | O.S. 2015/1333 |
| Atodlen 5<br>(yn rhannol) | 27 Mai 2015 | O.S. 2015/1333 |
| Paragraffau 12, 18, 20 i 22, a 28 i 35 o Atodlen 8<br>(yn rhannol) | 3 Awst 2015 | O.S. 2015/1584 |

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1605 (Cy. 203) (C. 93)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *10 Awst 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 97(2) a 100(3)(b) o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2015

**2.** Daw adran 89 o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2015.

### Trefniadau trosiannol

**3.**—(1) Ni all gweithredwr dynodedig ond adolygu cwyn gymhwysol am weithred neu anwaith sefydliad cymhwysol sy'n dod o fewn adran 11(e) neu (f) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**2**) pan fo'r weithred neu'r anwaith y cwynir amdani neu amdano—

(a) yn digwydd ar 1 Medi 2015 neu ar ôl hynny; neu

(b) yn digwydd cyn y dyddiad hwnnw ond yn parhau ar y dyddiad hwnnw neu ar ei ôl.

(**1**) 2015 p. 15.
(**2**) 2004 p. 8.

(2) Yn yr erthygl hon, mae i'r termau "gweithredwr dynodedig", "cwyn gymhwysol" a "sefydliad cymhwysol" yr un ystyr ag a roddir i "designated operator", "qualifying complaint" a "qualifying institution" yn eu tro yn Rhan 2 o Ddeddf Addysg Uwch 2004.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

10 Awst 2015